# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 21 Tachwedd 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 172(v2)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:**

**Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda Maes Awyr Caerdydd yn sgil adroddiadau bod cwmni awyrennau Flybe yn mynd i gael ei werthu?

**Rhun Ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wasanaethau trên yn dilyn ymddiheuriad cyhoeddus Trafnidiaeth Cymru am ddiffygion yn y gwasanaethau?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i ethol Aelod i Gomisiwn y Cynulliad (5 munud)

**NDM6876** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 7.9, yn penodi Sian Gwenllian (Plaid Cymru) fel aelod o Gomisiwn y Cynulliad yn lle Adam Price (Plaid Cymru).

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor (5 munud)

**NDM6877** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 17.3 ac 17.13(ii), yn ethol Helen Mary Jones (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Cyllido Addysg Bellach

(60 munud)

**NDM6862**

Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)
Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)
Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Sian Gwenllian (Arfon)
Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu bod cyllid ar gyfer addysg bellach wedi bod o dan bwysau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i doriadau cyllidebol.

2. Yn nodi bod y sector addysg bellach wedi'i osod o dan bwysau ychwanegol, yn rhannol oherwydd polisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â dysgu gydol oes,

sgiliau a chyflogadwyedd, a gafodd eu hegluro yn y cynllun cyflogadwyedd diweddar a ddiweddarwyd gan ddatganiad ysgrifenedig ym mis Medi 2018.

3. Yn mynegi pryder bod staff mewn sefydliadau addysg bellach yn ystyried mynd ar streic dros gyflogau annigonol a phryderon ynghylch llwythi gwaith trwm.

4. Yn cynnig na ddylai fod unrhyw ostyngiad pellach o ran faint o arian a dderbynnir gan y sector addysg bellach ac y dylid cydnabod ei safle fel allwedd i gynhyrchiant, sgiliau, hyfforddiant a chyflogadwyedd yn economi Cymru.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Creu'r Diwylliant Cywir

(60 munud)

**NDM6870** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, 'Creu'r Diwylliant Cywir', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Medi 2018.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2018

**Dogfennau Ategol**

Ymateb Comisiwn y Cynulliad (28 Medi 2018)

Ymateb Comisiwn y Cynulliad (30 Hydref 2018)

## 7 Dadl ar Ddeiseb P-05-828 Rhagdybiaeth o Blaid Ysgolion Gwledig

(60 munud)

**NDM6871** David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r ddeiseb, 'P-05-828 Rhagdybiaeth o blaid Ysgolion Gwledig', a gasglodd 5,125 o lofnodion.

P-05-828 Rhagdybiaeth o blaid Ysgolion Gwledig

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6872** Rhianon Passmore (Islwyn)

Trafnidiaeth Cymru: y ffordd o drawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd yn Islwyn.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 27 Tachwedd 2018